**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 14 Rhagfyr 2015 yn Siambr Cyngor Sir y Fflint, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Roberts (Pennaeth Cyfleusterau); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) ac S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

Cyn agor y cyfarfod yn ffurfiol, talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cyng. Bob Wright o Gyngor Gwynedd a fu farw ym mis Medi. Roedd y Cadeirydd wedi mynd i'r angladd gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Cynhaliwyd munud o dawelwch.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Datganodd y Trysorydd fuddiant yn eitem 9 ar yr agenda – Adolygiad Blynyddol o Benodiad Statudol y Trysorydd a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 MEDI 2015

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21 Medi 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw fater yn codi.

4 MATERION BRYS

4.1 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau fod hen ŵr wedi marw ddydd Gwener 11 Rhagfyr yn dilyn tân yn ei gartref yng Nghaernarfon bythefnos ynghynt. Bydd y Crwner yn penderfynu achos y farwolaeth.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Medi a Rhagfyr 2016 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2015.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYLLIDEB YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB 2016-17

6.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad ar gyllideb yr ATA ar gyfer 2016-17 gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am hynt datblygu'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

6.2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ei chyllideb ddrafft ar 8 Rhagfyr, ac roedd y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol wedi cael ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr. Oherwydd bod y dyddiadau cyhoeddi'n hwyr, caiff cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ei gynnal ar 25 Ionawr 2016 er mwyn cytuno'n fanwl ar y gyllideb.

6.3 Roedd y Gweinidog wedi anfon llythyr at y Cadeirydd ynglŷn â'r goblygiadau arfaethedig i'r awdurdodau tân ac achub oherwydd y gostyngiadau i'r gyllideb. Darllenodd y PST ddarnau o'r llythyr i'r Aelodau, a thrafodwyd gwahanol faterion fel y nodir isod.

6.4 Firelink – Mae'r Aelodau'n ymwybodol y bydd y system gyfredol yn ei lle hyd nes y caiff system gysylltiadau newydd ei chyflwyno yn 2019. Cadarnhaodd y Gweinidog fod cyllid wedi cael ei ddiogelu ar gyfer 2016-17 gan ei fod yn cydnabod bod hynny'n 'hanfodol ar gyfer gweithredu'n effeithiol', ond ni allai gadarnhau a fyddai cymorth cyllidol ar gael yn 2017-18 a'r tu hwnt. Nodwyd hefyd fod y Gweinidog yn methu gwneud ymrwymiad tebyg o ran y system newydd, ac mae'n annog yr ATA i wneud cais am gyllid Buddsoddi i Arbed.

6.5 Bydd y cyllid refeniw diogelwch cymunedol yn gostwng 20%, gyda chyfanswm o £818k ar gael ledled Cymru yn 2016-17. Yn anochel, bydd hyn yn golygu lleihau rhaglenni diogelwch cymunedol, ac yn y cyfarfod arbennig ym mis Ionawr caiff yr Aelodau ragor o fanylion am gais GTAGC am y cyllid sydd ar gael.

6.6 Mynegwyd pryderon fod y Gweinidog yn disgwyl i'r awdurdodau tân ac achub brif-ffrydio'r holl waith diogelwch cymunedol a wneir ar hyn o bryd; roedd yr Aelodau'n ystyried bod y gwaith hwn wedi cael ei wneud ar y cyd â Llywodraeth Cymru hyd yma a'i fod yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru i gadw pobl yn ddiogel yn y gymuned ac na fyddai modd ei wneud heb yr arian grant. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cadeirydd a'r PST ysgrifennu at y Gweinidog i dynnu sylw at y materion hyn.

6.7 O ganlyniad i gyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, roedd yr holl Aelodau yn ymwybodol fod pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn 2016-17 a chafwyd trafodaethau helaeth ynglŷn â ffyrdd o gau'r blwch o £1.3 miliwn yn y gyllideb. Roedd y Panel Gweithredol wedi argymell bod yr Awdurdod yn llunio ei gyllideb ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau ac y dylai ystyried tanategu cyllideb 2016-17 gydag arian o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn. Atgoffwyd yr Aelodau eto gan y Trysorydd fod perygl sylweddol i'r Awdurdod petai'n defnyddio'r cronfeydd cyffredinol, ond roedd ef yn ystyried hefyd fod angen cymryd y risg er mwyn gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

6.8 Er mwyn arbed rhywfaint o arian, cynigiodd y Cyng. Reece y dylid anfon yr holl agendâu ac adroddiadau'n electronig yn hytrach nag ar bapur, a chytunwyd i anfon adroddiadau ar e-bost i'r Aelodau sy'n gallu agor ffeiliau'n electronig.

6.9 **PENDERFYNWYD**

**(i) anfon llythyr at y Gweinidog i amlinellu pryderon yr Aelodau ynglŷn â'r arian grant ar gyfer diogelwch cymunedol;**

**(ii) nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2016-17;**

**(ii) cadarnhau bod cyllideb 2016-17 yn cael ei llunio ar sail y lefel gyfredol o wasanaethau;**

**(iii) derbyn argymhellion y Panel Gweithredol bod yr Awdurdod yn ystyried tanategu cyllideb 2016-17 gydag arian o'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn, gan ystyried y risgiau sylweddol y mae hynny'n eu creu i'r blynyddoedd nesaf.**

10 ALLDRO AMCANOL 2015-2016

10.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi alldro amcanol wedi'i amcangyfrif am flwyddyn ariannol 2015-16.

10.2 Dywedodd y Trysorydd mai £35k oedd y tanwariant a amcangyfrifid ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ond mae'r llifogydd diweddar yn debygol o gael effaith ar y ffigwr hwn. Nodwyd hefyd fod y gyllideb wreiddiol yn cynnwys cyfraniad o £223k o'r cronfeydd wrth gefn. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol, ni fydd gofyn defnyddio'r gronfa hon ar hyn o bryd.

10.3 Nododd yr Aelodau yr amcangyfrifir y bydd gorwariant o gymharu â'r gyllideb wedi digwydd o ran y gwariant cyfalaf ar y rhaglen cerbydau ysgafn newydd a phrynu cyfarpar ar gyfer y Fflyd. Er mwyn lleihau costau yn y blynyddoedd i ddod, telir am y costau hyn drwy gyfraniad o'r refeniw.

10.4 Holodd yr Aelodau am y cynllun prentisiaethau, glanhau safleoedd y Gwasanaeth a'r cynllun newydd i dreialu cyd-ymateb. Atgoffwyd yr Aelodau gan y PST y bydd y cynllun cyd-ymateb yn cael ei dreialu mewn wyth ardal yng Ngogledd Cymru a bydd yr Awdurdod yn ceisio adennill y costau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC). Hefyd, cafodd yr Aelodau wybod am y goblygiadau o ran yswiriant a hyfforddi. Roedd y Cyng. Lowe yn ystyried bod hyn yn gam cadarnhaol a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith.

10.5 **PENDERFYNWYD nodi'r tanwariant bychan a'r wybodaeth fel y nodir yn yr adroddiad.**

11 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BENODIAD STATUDOL Y TRYSORYDD A'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

Gadawodd Ken Finch a Dawn Docx yr ystafell tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod.

11.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod angen cynnal adolygiad o'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub a beth yw'r trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi i'r swydd statudol honno.

11.2 Mae gan yr Awdurdod gytundebau lefel gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol cyffredinol, gwasanaethau ariannol ac ar gyfer penodi Trysorydd statudol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae Mr Finch ar fin ymddeol yn Ionawr 2016, ac mae CBS Conwy wedi dweud na fydd mwyach mewn sefyllfa i ddarparu Trysorydd gyda'i lefel gyfredol o adnoddau a staff. Felly, yn y flwyddyn ariannol newydd bydd angen i'r Awdurdod hysbysebu'r swydd a chynnal broses gystadleuol i recriwtio Trysorydd. Tra bydd y broses hon yn mynd rhagddi, cynigir bod Dawn Docx, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, yn ymgymryd â rôl Trysorydd am daliad ychwanegol o £597 y mis, sef y ffi *pro rata* ar gyfer y Trysorydd.

11.3 Nodwyd y bydd angen i'r Awdurdod gadarnhau hefyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y bydd un o'i swyddogion (sef Sandra Forrest ar hyn o bryd) yn parhau i fod yn swyddog atebol i gefnogi'r rôl S151 oherwydd bydd y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau ariannol yn parhau yn ei le. Byddai hyn yn cryfhau'r berthynas, yn lliniaru'r risg ac yn gymorth i lywodraethu corfforaethol ac ariannol.

11.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo adolygiad o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Trysorydd i'r Awdurdod;**

**(ii) cymeradwyo'r trefniadau yn y cyfamser a'r broses benodi, fel yr amlinellir uchod;**

**(iii) cytuno y bydd y broses ddethol yn dilyn yr un drefn ag ar gyfer swyddi uwch eraill yn yr Awdurdod.**

12 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2016

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2016.

12.2 Nodwyd y gofynnwyd i'r Cyng. P Lewis gadeirio cyfarfod y Panel Gweithredol ar 9 Mai, a gofynnodd ef am gael dechrau'r cyfarfod am 2pm; cytunodd yr Aelodau i hyn.

12.3 **PENDERFYNWYD nodi'r dyddiadau cyfarfodydd fel a ganlyn:**

**Cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub**
Dydd Llun 25 Ionawr 2016 – Conwy (cyfarfod arbennig)
Dydd Llun 21 Mawrth 2016 – Ynys Môn
Dydd Llun 20 Mehefin 2016 - Conwy
Dydd Llun 19 Medi 2016 – Sir Ddinbych
Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 – Sir y Fflint

**Cyfarfodydd y Panel Gweithredol i'w cynnal am 10am ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Dydd Llun 8 Chwefror 2016
Dydd Llun 9 Mai 2016 (*dechrau am 2pm)
Dydd Llun 18 Gorffennaf 2016
Dydd Llun 24 Hydref 2016

**Cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i'w cynnal am 2pm ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub**
Dydd Llun 25 Ionawr 2016
Dydd Llun 6 Mehefin 2016
Dydd Llun 12 Medi 2016.

RHAN II

13 RHAGLEN GYFALAF 2015-16

13.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen cyfalaf ystâd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

13.2 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am yr wybodaeth a oedd yn yr adroddiad ac yna **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**